

Croeso i'n cylchlythyr deufisol sy'n rhoi diweddariadau am waith Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Mae'r cylchlythyr hwn ar gyfer arbenigwyr trin cwynion mewn heddluoedd a chyrff plismona lleol (LPBs).

Gwybodaeth i'r heddlu

Gallwch ddod o hyd i lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer arbenigwyr trin cwynion ar ein [Gwefan](#). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer adrannau safonau proffesiynol, arbenigwyr trin cwynion ac adolygwyr cyrff plismona lleol.

Mae'r pynciau yn cynnwys canllawiau ymdrin â chwynion a phecyn cymorth, canllawiau gwahaniaethu IOPC, canllawiau ar reoli ymddygiad achwynwyr afresymol ac annerbyniol, nodyn cyngor gweithredol ar adroddiadau prydlondeb 12 mis a mwy.

Comisiynu gwaith pellach gyda Gorllewin Swydd Efrog

Mae IOPC wedi gweithio'n agos gyda thrinwyr cwynion yn Heddlu Gorllewin Swydd Efrog (WYP) fel rhan o brosiect goruchwyllo. Un o'r llwyddiannau mawr oedd y defnydd o gomisiynu gwaith pellach (CFW).

Meddai Lisa Thompson, Rheolwr Adolygu Gwasanaeth yn WYP: "Pan fydd cwyn yn cael ei ddatrys, rydym yn credu ei fod wedi cael ei drin mewn modd resymol a chymesur. Yn hanesyddol, pan oedd IOPC yn anghytuno, roedd adolygiadau yn cael eu cadarnhau ar gyfer (ail)ymchwiliad. Creodd hyn waith ychwanegol a dileu'r cyfle i drafod ffyrdd amgen, cymesur o fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Mae cyflwyno'r broses o gomisiynu gwaith pellach yn welliant sylweddol. Mae wedi creu cyfleoedd i drin cwynion ac i'r IOPC ddeall y rhesymeg tu ôl i benderfyniadau ac unrhyw feysydd o bryder yn well. Mae'r dull hwn wedi cryfhau perthnasoedd gwaith, lleihau cynnydd diangen, a helpu i sicrhau bod unrhyw waith pellach yn gymesur ac yn ganolbwyntiedig. Yn sylfaenol, mae wedi cefnogi canlyniadau cyflymach a phrofiadau gwell i achwynwyr".

Mae comisiynu gwaith pellach yn cyfeirio at y broses lle gall IOPC ofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr awdurdod priodol (AP) yn ystod y cam adolygu, trwy ymholiad ychwanegol.

Yna mae'r wybodaeth newydd yn cael ei asesu fel rhan o'r adolygiad gan IOPC i benderfynu ar ei effaith ac a oes angen unrhyw gamau pellach. Mae'n offeryn defnyddiol i fynd i'r afael mewn modd cymesur ag unrhyw hepgoriadau bach sy'n cael eu nodi. Gall hyn atal yr angen i ddychwelyd y gŵyn ar gyfer (ail)ymchwiliad. Gall y dull newydd hwn wella prydlondeb trwy osgoi (ail)ymchwiliadau diangen, mynd i'r afael â bylchau neu feysydd sy'n peri pryder i'r achwynydd, a lleihau'r galw am adnoddau'r heddlu.

Mae ein [Taflen Comisiynu Gwaith Pellach](#) newydd ar gyfer arbenigwyr trin cwynion ac eraill o fewn PSDs yn esbonio'r broses, pa wybodaeth gall yr IOPC ofyn am, a sut y bydd y deunydd newydd yn cael ei ystyried. Byddwn yn rhannu'r daflen hon gyda'r triniwr cwynion mewn unrhyw achosion lle rydym yn comisiynu gwaith pellach.

Cwynion sy'n fwy addas ar gyfer proses arall

Cawsom sawl ymholiad gan PSDs am gwynion sy'n gysylltiedig, ac weithiau'n fwy addas, i broses arall. Mae'r rhain yn cynnwys cwynion am y broses fetio gan ymgeiswyr am swyddi a chwynion am doriadau diogelu data. Weithiau, gall cwynion gynnwys materion sy'n dod o fewn system gwynion yr heddlu a chyfundrefn statudol arall.

Cwynion gan ymgeiswyr am swyddi

Gallai cwynion a wneir gan ymgeiswyr swyddi a fethodd y broses fetio gynnwys peidio â chael cyfle i esbonio eu hamgylchiadau, peidio â chael addasiad rhesymol, neu gael eu trin yn annheg oherwydd cysylltiad personol â rheolwr fetio y llw.

Mae'r trefniadau statudol ar gyfer cwynion am yr heddlu o dan y *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* wedi'u bwriadu i ddelio â phryderon am ymddygiad neu wasanaeth yr heddlu sydd wedi effeithio'n niweidiol ar aelodau o'r cyhoedd. Nid yw system gwynion yr heddlu wedi'i fwriadu i ddelio gyda materion cyflogaeth mewnol. Nid yw cwynion gan ymgeiswyr am rolau plismona wedi'u heithrio'n benodol, ond mae'r un ystyriaethau polisi yn berthnasol. Dylai arbenigwyr trin cwynion ystyried a yw pryder y person mewn gwirionedd yn ymwneud â'r canlyniad fetio, neu a yw'n codi mater ymddygiad posib.

Mae [Canllawiau Statudol](#) IOPC, ym mharagraff 12.10, yn cydnabod efallai na fydd yn rhesymol nac yn gymesur cymryd camau pellach mewn perthynas â chwyn lle byddai'r mater yn cael ei drin yn fwy priodol drwy broses arall.

Pan fydd y gŵyn yn ymwneud â gwrthod clirio fetio, y broses apelio fetio fel arfer fydd y llwybr mwyaf priodol. Mae hyn yn cael ei lywodraethu gan [Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig](#) (APP) y Coleg Plismona, gyda'r seiliau statudol dros apel a nodir ym mharagraff 4G (3) o *Rheoliadau (Fetio) yr Heddlu 2025*.

Mae cwynion am addasiadau rhesymol yn ystod y broses ymgeisio neu fetio yn cael eu trin yn fwyaf priodol trwy lwybrau cyfraith sifil neu gyfraith cyflogaeth ar gyfer torri'r *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

Yn yr achosion hyn, y canlyniad priodol o dan broses gwyno'r heddlu fyddai cofnodi'r gŵyn a chynghori na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd, oherwydd mae'r mater yn cael ei drin yn well trwy'r broses arall, fwy priodol. Dylai'r llythyr canlyniad hefyd esbonio beth yw'r broses honno.

Rhaid ymchwilio i gŵyn lle mae digon o wybodaeth i nodi y gallai rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi ymddwyn mewn ffordd a allai gyfiawnhau achos disgyblu. Er enghraifft, gwnaeth y cyfwelydd sylwadau gwahaniaethol am nodweddion crefyddol yr ymgeisydd gan honni eu bod yn gysylltiedig â chydymdeimlwyr terfysgaeth ac felly ni ddylai basio'r gofynion fetio.

Cwynion am doriadau diogelu data

Gellir cofnodi a thrin cwynion i'r heddlu am drin data personol o dan atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a / neu ymdrin â nhw o dan weithdrefnau cwynion diogelu data yr heddluoedd. Mae

gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [ganllawiau](#) ar ymdrin â chwynion diogelu data ar gyfer sefydliadau.

Ni all proses gwynion yr heddlu wneud penderfyniad terfynol ynghylch a yw deddfwriaeth diogelu data wedi'i dorri, mae'r penderfyniad hwnnw ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r llysoedd.

Dylai arbenigwyr trin cwynion ofyn i'r achwynydd a ydynt am i'w cwyn gael ei gofnodi o dan atodlen 3 o'r *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, neu a fyddai'n well ganddynt ei drin o dan y gweithdrefnau cwynion diogelu data. Dylai cynnwys esboniad o'r gwahaniaeth yn y prosesau a'u canlyniadau posib ganiatáu i achwynwyr wneud penderfyniadau gwybodus. Os yw'r achwynydd yn gofyn i'r mater gael ei gofnodi o dan atodlen 3, rhaid ei gofnodi.

Rhaid ymchwilio i'r gŵyn lle mae digon o wybodaeth i nodi y gallai rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi ymddwyn mewn ffordd a allai gyfiawnhau achos disgyblu.

Er enghraifft, trwy atal gwybodaeth y maent yn gwybod y dylid ei ddarparu yn fwriadol, cofnodi gwybodaeth anghywir yn fwriadol, neu gael mynediad neu gael gwybodaeth heb bwrpas plismona yn fwriadol. Mewn unrhyw achos arall, mae'r canlyniad o dan y broses cwynion heddlu yn debygol o fod yn gyfystyr â dim camau pellach, oherwydd mae'r mater yn cael ei drin yn well trwy'r gweithdrefnau cwynion diogelu data, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r llysoedd. Os bydd cwyn sy'n cael ei drin o dan y gweithdrefnau diogelu data yn tynnu sylw at unrhyw faterion ymddygiad, dylai fod proses ar waith i basio'r materion hyn at y PSDau.

Gwybodaeth ddiweddar

Diweddariad i'r pecyn cymorth trin cwynion am wahaniaethu

Ym mis Medi fe wnaethom ysgrifennu at PSDs ac OPCCs am ddiweddariad diweddar i'n [pecyn cymorth ar gyfer arbenigwyr trin cwynion am wahaniaethu](#). Mae'r [ddogfen adnoddau a dolenni](#) nawr yn cysylltu ag adnodd allanol newydd ar gyfer nodi a herio rhagfarn mewn ymatebion heddlu i bobl sydd ar goll sy'n Ddu neu o dras cymysg Du. Cafodd ei ddatblygu gan yr elusennau Missing People a Listen Up, mewn partneriaeth â grŵp o weithwyr proffesiynol a chynghorwyr sydd â phrofiad byw. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â oversight@policeconduct.gov.uk.

? Cwestiynau cyffredin gan heddluoedd a Chyrff Plismona Lleol

C: Mewn ymchwiliadau gweithdrefnau arbennig, pa derminoleg dylid ei defnyddio ar gyfer y canlyniad? A ddylwn i wneud penderfyniad ar lefel gwasanaeth, yn ogystal â mynd i'r afael ag a oes achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol a chadarnhau a yw'r gŵyn yn cael ei chadarnhau ai peidio? A ddylwn i hefyd fod yn dogfennu unrhyw gamau i'w cymryd?

A: Ar gyfer ymchwiliad lleol sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig, mae [Pennod 14 o Ganllawiau Statudol IOPC](#) yn nodi bod rhaid i'r adroddiad ymchwiliad gynnwys barn yr ymchwilydd ynghylch:

- a oes gan unrhyw berson achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, neu ddim achos i'w ateb;
- a oedd perfformiad unrhyw berson yn anfoddhaol; a
- a ddylid atgyfeirio unrhyw fater at y Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (RPRP).

Dylai ymchwiliwyr osgoi gwneud canfyddiadau o ffaith a allai benderfynu a ddigwyddodd camymddygiad, gwneud penderfyniad lefel gwasanaeth neu ddweud a yw'r gŵyn wedi'i chadarnhau a'i peidio.

Ar gyfer ymchwiliadau lleol sydd ddim yn ddarostyngedig i weithdrefnau arbennig neu sy'n cael eu trin yn wahanol i drwy ymchwiliad, ni ddylai'r ymchwilydd fynegi barn ynghylch a oes achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol. Dylai'r ymchwilydd dynnu sylw at unrhyw feysydd dysgu a nodwyd ganddynt a gwneud penderfyniad ar lefel gwasanaeth.

Am fwy o wybodaeth am ganlyniadau, yn dibynnu ar sut y cafodd y gŵyn ei thrin, gweler [Pennod 17 o Ganllawiau Statudol IOPC](#) a'r tabl canlyniadau yn [rhifyn 19 o Focus](#)

C: Rydym yn gweld mwy o gwynion sy'n cael eu hystyried yn anghredadwy. Er enghraifft, mae'r achwynydd yn credu bod yr heddlu yn gweithio gydag archfarchnadoedd lleol i wenwyno cynhyrchion y mae'r achwynydd fel arfer yn eu prynu o'r siopau hynny. Er mwyn osgoi gwaith diangen, rydym yn ystyried eu trin y tu allan i Atodlen 3, a dweud wrth yr achwynydd na fydd unrhyw gamau pellach (NFA) yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthyf fod angen cofnodi'r mater er mwyn darparu llythyr NFA. Ydy hyn yn gywir?

A: Mae ymdrin â chwynion y tu allan i Atodlen 3 wedi'i gynllunio i ddarparu ymateb cyflym i ddatrys anfodlonrwydd lle nad yw'r gŵyn yn cwrdd â'r trothwy cofnodi, yn seiliedig ar sylwedd y gŵyn ac nid ar deilyngdod.

Nid yw NFA yn ganlyniad sydd ar gael i'w drin y tu allan i Atodlen 3, gan ei fod yn benderfyniad ffurfiol o dan y fframwaith statudol. Dylid dim ond ei ddefnyddio pan nad oes unrhyw gamau y gellir eu cymryd i ddatrys cwyn. Pan fydd awdurdod priodol yn bwriadu dod a'r mater i ben gyda chanlyniad NFA, bydd angen cofnodi'r gŵyn o dan Atodlen 3 yn gyntaf, hyd yn oed os yw'r honiadau yn ymddangos yn anghredadwy.

Isod ceir enghreifftiau pellach lle gellir cymhwyso NFA anghywir o bryd i'w gilydd:

- **Dim asesiad lefel gwasanaeth** - cwynion sy'n cael eu trin i ddechrau y tu allan i Atodlen 3 ac a gofnodir yn ddiweddarach ar gais yr achwynydd. Fodd bynnag, ni gynhelir asesiad lefel gwasanaeth, a dywedir wrth yr achwynydd na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd oherwydd yr ymholiadau a gynhaliwyd fel rhan o adfer gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn anghywir. Ar ôl eu cofnodi, hyd yn oed os cynhaliwyd ymholiadau fel rhan o adfer gwasanaeth, mae angen asesiad o a gafodd y cwynion eu hateb. Yna rhaid i'r achwynydd dderbyn penderfyniad lefel gwasanaeth ysgrifenedig, ynghyd â'r hawl i adolygiad.

- **Ddim yn ailadroddus** - cwynion sydd wedi'u categorio fel "ailadroddus" sydd naill ai'n cynnwys cwynion newydd, neu nid oedd y gŵyn wedi'i gofnodi o'r blaen nac yn ddarostyngedig i benderfyniad lefel gwasanaeth. Gellir ystyried NFA dim ond os yw'r gŵyn wedi'i chofnodi yn flaenorol ac wedi cael ei drin yn ddigonol, gyda dim cwynion newydd sydd angen ymateb. Yn yr achosion hyn, ni fyddai angen penderfyniad pellach ar lefel gwasanaeth gan nad yw'r gŵyn wedi cael ei ailystyried. Fodd bynnag, efallai hoffech ailadrodd unrhyw benderfyniadau lefel gwasanaeth blaenorol fel rhan o resymeg dros beidio â chymryd camau pellach ar yr achlysur hwn.
- **Ni chydabyddir difrifoldeb y gŵyn** – nid yw'r gŵyn yn cael ei chydabod i fod mor ddifrifol ag ydyw. Dylid ymchwilio i honiadau fel camddefnyddio cyfrifiaduron yr heddlu, ac mewn rhai achosion eu atgyfeirio at IOPC. Mae yna hefyd achosion, lle mae'r honiadau yn fwy difrifol na'r hyn a gofnodwyd, a dylid bod wedi gwneud mwy i fynd i'r afael â nhw.
- **Diffyg cyswllt/diffyg archwilio'r gŵyn** – mae'r penderfyniad NFA yn cael ei gofnodi oherwydd bod diffyg gwybodaeth i symud ymlaen â'r gŵyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr heddlu wedi ymgysylltu â'r achwynydd, pan fyddai ymgysylltu yn debygol o ddarparu digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gŵyn. Mae NFA yn briodol dim ond pan fydd ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r achwynydd wedi methu ac nad oes digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gŵyn o hyd. Dylid cadarnhau penderfyniad NFA yn ysgrifenedig, gan ddarparu hawl i adolygiad.

Am ragor o wybodaeth am y defnydd o NFA, gweler tudalennau 80 ac 81 o [Ganllawiau Statudol IOPC](#) a [rhifyn 14 o Focus](#).

C: A ddylai'r awdurdod priodol wneud penderfyniadau ar gyfer cwynion sy'n cael eu trin heblaw trwy ymchwiliad?

A: Na, fel yr amlinellir ym [Mhennod 17 o Ganllawiau Statudol IOPC](#), ar gyfer cwyn a gafodd ei thrin heblaw drwy ymchwiliad, y triniwr cwynion, nid yr awdurdod priodol, a ddylai wneud y penderfyniad terfynol ar lefel gwasanaeth.

Newyddion corfforaethol

Drafft ymgynghori o'n canllawiau statudol

Ym mis Awst 2026, fe wnaethom ysgrifennu at wahanol randdeiliaid i lansio'r [ymgynghoriad ar ganllawiau statudol IOPC](#).

Rydym yn gwneud nifer o ddiwygiadau i'r canllawiau statudol i adlewyrchu rhai newidiadau deddfwriaethol ers 2024. Rydym yn gwahodd pawb sy'n ymdrin â chwynion, materion ymddygiad a materion marwolaeth ac anafiadau difrifol, i roi eu barn ynghylch a yw adrannau diwygiedig y canllawiau yn helpu arbenigwyr trin cwynion i ddeall y ddeddfwriaeth.

Nid oes rhaid i ymatebion fynd i'r afael â phob diwygiad. Os hoffech roi eich barn, anfonwch e-bost at yourviews@policeconduct.gov.uk **erbyn dydd Mawrth 20 Hydref 2026**.

Argymhelliad ar ddiweddaru risgiau a gwendidau cam-drin domestig Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig

Mae IOPC yn argymhell bod y Coleg Plismona yn adolygu a, lle'n briodol, yn diweddaru'r APP cam-drin domestig ar risgiau a gwendidau a deunyddiau dysgu asesu risg cam-drin domestig cysylltiedig, er mwyn cryfhau'r canllawiau i swyddogion ar gyfathrebu risg i ddioddefwyr mewn achosion cam-drin domestig. Dylai hyn ei gwneud hi'n glir y dylai swyddogion ddefnyddio eu barn proffesiynol wrth drafod canlyniad yr asesiad risg gyda'r dioddefwr.

Dylai swyddogion hefyd esbonio'n glir natur ac arwyddocâd y risgiau a nodwyd a sicrhau bod y cyfathrebu'n gywir, yn gyson ac yn cefnogi dealltwriaeth y dioddefwr a phenderfyniadau gwybodus am opsiynau diogelwch a diogelu. Dylai hyn gynnwys enghreifftiau o arfer da ar gyfer diogelu dioddefwyr risg canolig yn y gymuned, megis dull dilyn i fyny plismona cymdogaeth strwythuredig a nodwyd gan Dyfed-Powys. Darllenwch fwy ar [ein gwefan](#).

Newyddion diweddaraf

Cadwch y wybodaeth ddiweddaraf am ein ymchwiliadau a'n gwaith arall i gynyddu hyder y cyhoedd yn y system cwyno am yr heddlu. Gallwch ddod o hyd i'n [Newyddion diweddaraf IOPC](#) ar ein gwefan.

[Diweddariad ar ymchwiliadau i adroddiadau blaenorol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham](#)

[Cyn-swyddog Heddlu De Cymru wedi'i gyhuddo o dreisio, tagu an-farwol a chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus](#)

[Cyn-swyddog Heddlu Manceinion Fwyaf yn cael ei garcharu am lygredd, gan gynnwys rhoi gwybodaeth i aelod troseddu cyfundrefnol](#)

[Rhingyll Heddlu Swydd Nottingham yn cael ei ddiswyddo dros ddefnyddio iaith wahaniaethol tuag at berson yn y ddalfa](#)

[Charing Cross: 15 o swyddogion wedi cyflawni camymddwyn difrifol, a 15 arall yn cael eu hymchwilio](#)

[Ymchwiliad IOPC i saethu gyda Heddlu Swydd Bedford yn cael eu trin fel tystion ar hyn o bryd](#)

[Lansio ymchwiliad i farwolaeth yn ystafell ddalfa Cwnstabliaeth Swydd Gaer](#)

E-bost: oversight@policeconduct.gov.uk

Ffôn: 01924 811699

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch Cyswllt Goruchwyllo neu aelod o'r tîm Goruchwyllo.